**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**13eg Mai 2013**

**CARCHAR YNG NGOGLEDD CYMRU**

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

**DIBEN YR ADRODDIAD**

1 Gofynnir i'r Aelodau gadarnhau cefnogaeth yr Awdurdod i ymrwymiad y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol i leoli carchar yng Ngogledd Cymru.

**CEFNDIR**

2 Mae'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol yn bodoli ers nifer o flynyddol, ac mae'n cynnwys Arweinwyr a Phrif Weithredwyr y chwe awdurdod cyfansoddol yng ngogledd Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, Cadeirydd a Phrif Swyddog Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Cadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

3 Ei ddiben yw hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth a chydweithio ym maes cyflwyno gwasanaethau, a rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal ag adnabod a cheisio atebion i faterion sydd o bwys rhanbarthol. Un enghraifft ddiweddar yw'r dyhead i wella cyfleoedd cyflogaeth yn y rhanbarth.

4 Cododd cyfle o'r fath i gryfhau'r economi leol a chyflogaeth yn ddiweddar pan wnaeth Chris Grayling, yr Ysgrifennydd Cyfiawnder, ymrwymiad i edrych ar y posibilrwydd o adeiladu carchar newydd gyda lle i 2000 neu ragor yng Ngogledd-orllewin Lloegr, Llundain neu Ogledd Cymru; hwn fyddai'r carchar mwyaf yn y DU.

## GWYBODAETH

5 Bydd yr Aelodau, drwy eu hawdurdodau cyfansoddol eu hunain, yn ymwybodol o waith y Bwrdd yn lobïo am garchar yng Ngogledd Cymru er 2007. Ategodd y Bwrdd ei ymrwymiad i'r uchelgais hon yn dilyn datganiad gweinidogol ar 10fed Ionawr 2013 gan yr Ysgrifennydd Cyfiawnder ynghylch rheoli lle mewn carchardai.

6 Gwneir cais am garchar i'r rhanbarth oherwydd y manteision economaidd sylweddol a nodwyd, gan gynnwys refeniw blynyddol sylweddol i'r economi leol, cyflogaeth sefydlog a chadwyn cyflenwi yn gysylltiedig ac amrywiaeth o wasanaethau, o addysg, iechyd, arlwyo a chynnal a chadw adeiladau. Cydnabyddir mai Gogledd Cymru yw'r unig ardal yn y DU sydd heb garchar, a byddai sefydlu cyfleuster o'r fath yn galluogi carcharorion i gyfathrebu yn Gymraeg o dan ddarpariaethau'r Mesur yr Iaith Gymraeg 2011.

7 O ran diogelwch cymunedol, disgwylir y byddai carchar lleol yn gwella adferiad troseddwyr ac yn lleihau'r cyfraddau aildroseddu drwy alluogi cysylltiad agosach fodoli rhwng teuluoedd a'r proffesiynau cefnogi, a hynny drwy wella mynediad. Gofynnwyd i Heddlu Gogledd Cymru gyflwyno achos busnes yn mesur y manteision posibl i ddiogelwch cymunedol o weld llai o aildroseddu yng Ngogledd Cymru petai carchar yn cael ei leoli yng Ngogledd Cymru.

8 Wrecsam yw'r unig awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru y gwyddys ei fod wedi cyflwyno safleoedd ar wahoddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n hysbys fod tirfeddianwyr preifat wedi cyflwyno safleoedd yng Ngogledd Cymru ond nid yw'n hysbys pwy.

9 Mae Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Llywodraeth Cymru, wedi rhoi ei gefnogaeth yn gyhoeddus i safle Firestone yn Wrecsam. Gan fod yr Awdurdod yn rhan o'r Bwrdd, ystyrir mai doeth fyddai i'r Awdurdod hefyd ddangos ei gefnogaeth i'r prosiect.

## ARGYMHELLIAD

10 Gofynnir i'r Aelodau gadarnhau cefnogaeth yr Awdurdod i ymrwymiad y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol i weld lleoli carchar yng Ngogledd Cymru.